# COLLI ENW, COLLI ENAID

Roedd pentref Rhosdylluan
Yn ddistaw fel y bedd,
Y sêr o bell yn gwenu,
Yr oriau man mewn hedd,
Ac ar ei thaith o'r goedwig ddofn
Dôi gwdi-hŵ i godi ofn.

Mae Rhosdylluan bellach
Yn llachar fel rhyw ffair,
A goleuadau'n dallu
Pob clawdd, pob blewyn gwair;
Pob cysgod wedi ei 'sbydu'n llwyr,
Fel canol p'nawn yw oriau'r hwyr.

Gadawodd y dylluan
'Run pryd â'r ser di-ri
I chwilio am awyr dywyll,
Aeth âi henw efo hi;
A does dim enaid pluog, gwyn
Yn Rhosdylluan erbyn hyn.

*Bl 8, Ysgol Uwchradd Botwnnog*
*5 Mawrth 2026*